# Adroddiad Arholwyr TAG

Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

TAG UG/Safon Uwch

Haf 2025

© WJEC CBAC Ltd.2025



## Cyflwyniad

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu’r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgareddau addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

### Cefnogaeth bellach

| Mapio | Disgrifiad | Cyswllt |
|---|---|---|
| Dysgu Proffesiynol / DPP | Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig. | https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/ |
| Cyn-bapurau | Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC |
| Gwybodaeth am ffiniau graddau | Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd. Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.<br><br>Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau. | Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk) |

[1] ***Noder: lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau | Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon. | Porth CBAC |
| Adnoddau Ystafell Ddosbarth | Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu. | https://adnoddau.cbac.co.uk/ |
| Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol | Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC. |
| Arholi gyda CBAC. | Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu. | Arholi gyda ni \| CBAC |

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Cynnwys**


| | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | 5 |
| Uned 1: Hybu iechyd a llesiant | 7 |
| Uned 2: Cefnogi iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru | 10 |
| Uned 3: Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch datblygiad plant a phobl ifanc | 14 |
| Uned 4: Cefnogi datblygiad, iechyd, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc | 17 |
| Uned 5: Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch ymddygiad oedolion | 20 |
| Uned 6: Cefnogi oedolion i gynnal iechyd, llesiant a gwydnwch | 23 |
| Eich cefnogi chi - manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol | 26 |


© WJEC CBAC Ltd.2025

## Crynodeb Gweithredol

### Uned 1: Hybu Iechyd a Llesiant

Dangosodd ymgeiswyr wybodaeth gref mewn testunau iechyd a gofal plant, gan ddefnyddio terminoleg arbenigol yn effeithiol. Fodd bynnag, gwelwyd gwendidau o ran deall cyfyngiadau'r model biofeddygol, gwahaniaethu rhwng hybu iechyd sylfaenol a thrydyddol, a deall cynllun 'Cymru Iachach'. Yn aml, roedd diffyg dyfnder yn yr ymatebion i gwestiynau AA2 (esboniwch) ac AA3 (trafodwch), gydag ymgeiswyr yn tueddu i ddisgrifio yn hytrach nag esbonio neu fynd i'r afael â'r cwestiynau yn llawn. Roedd atebion cryfach yn cynnwys trafodaethau manwl ar effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar wydnwch, ac egwyddorion a heriau 'Cymru Iachach'. Cynghorir ymgeiswyr i ddarllen cwestiynau'n ofalus, canolbwyntio ar ferfau gorchmynnol, a dyrannu amser yn gymesur i bob cwestiwn.

### Uned 2: Cefnog iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru

Ar y cyfan, roedd canolfannau'n asesu gwaith Asesiad Di-arholiad yn gywir, gyda ffurflenni datganiad ymgeisydd clir a chydag anodiadau, gan hwyluso'r broses gymedroli. I gyrraedd y bandiau marciau uchaf, rhaid i aseswyr sicrhau bod ymgeiswyr yn darparu tystiolaeth fanwl sy'n cyd-fynd yn agos â chynnwys y Fanyleb, geiriau gorchmynnol, ac amcanion asesu. Yn gyffredinol, roedd adroddiadau Tasg 1 wedi'u fformatio'n dda, gyda dewisiadau rôl priodol ac ymchwil cyn yr Asesiad Di-Arholiad wedi'i gyfeirnodi'n dda. Fodd bynnag, mae angen cysylltiadau cryfach â'r meini prawf asesu, yn benodol mewn meysydd fel llwybrau gyrfa, effeithiau deddfwriaeth, a chymhwyso sgiliau, egwyddorion a gwaith amlddisgyblaethol. Dangosodd yr holl ddeunydd a gyflwynwyd ar gyfer Tasg 2 ddulliau cyfeirnodi manwl gywir ac ymdriniaeth fanwl â'r ddeddfwriaeth benodol, yn enwedig Rhaglen Plant Iach Cymru. Dylai ymgeiswyr ymdrin yn llawn â'r holl amcanion asesu, defnyddio eu geiriau eu hunain, a strwythuro gwaith gyda phenawdau adrannau clir.

### Uned 3: Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch datblygiad plant a phobl ifanc

Dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn ac roeddent yn cymhwyso gwybodaeth yn effeithiol, gyda llai o ymatebion a gafodd farc o sero o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd gwelliant arbennig i'r perfformiad yn y cwestiynau amcan asesu dwbl. Fodd bynnag, daeth gwendidau i'r amlwg gyda damcaniaethau biolegol, yn enwedig damcaniaeth aeddfedol, lle roedd llawer yn ei chael hi'n anodd nodi neu gymhwyso'r damcaniaethwr cywir (Arnold Gesell) ac yn drysu rhwng safbwyntiau damcaniaethol. Er bod dealltwriaeth dda o ffactorau cymdeithasegol, seicolegol a gwybyddol, amrywiol oedd eu gallu i'w cymhwyso at astudiaethau achos. Roedd yr atebion gorau yn cymhwyso damcaniaethau yn uniongyrchol at senarios, ond roedd rhai gwannach yn disgrifio heb eu rhoi mewn cyd-destun. Cynghorir ymgeiswyr i ddarllen cwestiynau'n ofalus, sicrhau y caiff damcaniaethwyr eu cymhwyso'n glir at astudiaethau achos a chynnal defnydd manwl gywir o derminoleg sector-benodol.

### Uned 4: Cefnogi datblygiad, iechyd, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc

Llwyddodd ymgeiswyr i gyflawni marciau uchel ar draws y ddwy dasg Asesiad Di-arholiad. Roedd y ffordd y cafodd y tasgau eu cyflwyno yn gyson gryf, gyda chyflwyniadau Tasg 1 wedi'u hymchwilio'n dda a'u teilwra i leoliadau penodol, perthnasol. Dangosodd yr holl ddeunydd a gyflwynwyd ar gyfer Tasg 2 ddulliau cyfeirnodi manwl gywir ac ymdriniaeth ddwfn o'r ddeddfwriaeth benodol, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) a 'Cymru Iachach'. Dadansoddodd ymgeiswyr drawsnewidiadau, asesiadau, rhwystrau ac anghenion gofal cymhleth yn effeithiol gan ddefnyddio enghreifftiau wedi'u teilwra. I gyrraedd y bandiau marciau uchaf, dylai ymgeiswyr seilio dadansoddiadau yn eu lleoliad penodol, archwilio'n fanwl y goblygiadau i ymarferwyr a rhoi barnau gwerthusol clir ar bolisi a diogelu.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Uned 5: Safbwyntiau damcaniaethol ynghylch ymddygiad oedolion**

Yn gyffredinol, dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth gryf a gallu i gymhwyso damcaniaethau seicolegol. Defnyddiodd y rhan fwyaf yr astudiaeth achos a ryddhawyd ymlaen llaw ar gyfer Adran A a rheolwyd eu hamser yn dda ganddynt, arwydd o waith paratoi trylwyr. Roedd cyfathrebu ysgrifenedig fel arfer yn glir, gyda defnydd priodol o derminoleg pwnc-benodol. Fodd bynnag, nid oedd rhai ymatebion yn cynnwys digon o ddyfnder, yn arbennig wrth gysylltu dulliau seicolegol â chymorth ymarferol i unigolion. Dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddygiad a manteision Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol. Dyfarnwyd marciau uwch am drafodaethau manwl ar destunau fel ailstrwythuro gwybyddol Beck a'r dull 'bod o bwys'. Cynghorir ymgeiswyr i ganolbwyntio ar eiriau gorchmynnol, defnyddio adnoddau sydd ar gael ar gyfer paratoi a datblygu dealltwriaeth ddyfnach o ddamcaniaethau seicolegol a'u defnydd ymarferol.

**Uned 6: Cefnogi Oedolion i gynnal iechyd, llesiant a gwydnwch**

Mae'r Asesiad Di-arholiad yn gofyn am sylw gofalus i fanylion yn Nhasg 1 a Thasg 2 er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn bodloni amcanion asesu yn effeithiol. Mae dewis lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol priodol yn hanfodol, gan y gall dewis amherthnasol gyfyngu ar allu'r ymgeisydd i ddarparu enghreifftiau perthnasol. Dylai fformatau cyflwyno gynnwys gwybodaeth gynhwysfawr, ac mae defnyddio teitlau adrannau yn gwella cydlyniad y gwaith. Mae deall a chymhwyso gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yng nghyd-destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn hanfodol. Dylai'r ymgeiswyr wahaniaethu'n glir rhwng trawsnewidiadau, newidiadau bywyd a phrofiadau. Yn Nhasg 2, mae dealltwriaeth drylwyr o faterion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn angenrheidiol. Dylai'r ymgeiswyr osgoi cynnwys disgrifiadol ac anelu at ddyfnder dadansoddol. Mae dangos gwybodaeth am gyfrifoldebau diogelu a dadansoddi eu heffaith ar ymarferwyr yn hanfodol. Dylai'r ymgeiswyr asesu sut mae newidiadau mewn cymdeithas yn effeithio ar y sector iechyd a gofal, gan ddarparu tystiolaeth ac ystadegau i gefnogi dadleuon.

Yn gyffredinol, dangosodd ymgeiswyr waith paratoi a dealltwriaeth ganmoladwy ar draws yr holl unedau, gyda lle i wella wrth gymhwyso gwybodaeth ddamcaniaethol at senarios ymarferol a sicrhau dyfnder mewn ymatebion dadansoddol.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT**

**TAG - Lefel UG**

**Haf 2025**

**Uned 1: Hybu iechyd a llesiant**

## Trosolwg o'r Uned

Dyma'r pedwerydd papur arholiad ar gyfer y cymhwyster TAG hwn, a dylid canmol canolfannau am baratoi ymgeiswyr ar lefel Uwch Gyfrannol. Mae canolfannau wedi dilyn y cyngor a roddwyd mewn adroddiadau arholiadau blaenorol, ac roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi paratoi'n dda ar gyfer yr arholiad hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wedi cwblhau pob cwestiwn ar y papur arholiad, ac roedd yn ymddangos eu bod wedi dyrannu eu hamser yn briodol, yn ôl y dyraniad marciau. Dangosodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr y gallu i reoli amser yn effeithiol ac roeddent yn neilltuo digon o amser i gwblhau'r cwestiwn olaf hirach (14 o farciau wedi'u dyrannu).

Dangosodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth dda o gynnwys y fanyleb ac roeddent yn defnyddio enghreifftiau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn eu hymatebion. Roedd defnydd da o derminoleg sector-benodol ar draws amcanion asesu AA1, AA2 ac AA3. Fodd bynnag, roedd rhai ymgeiswyr yn llai cyfarwydd â rhywfaint o gynnwys y fanyleb, gan gynnwys cyfyngiadau'r model biofeddygol, y dulliau hybu iechyd sylfaenol a thrydyddol, 'Cynllun Cymru Iachach ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol' a rôl byrddau iechyd lleol wrth hybu iechyd a llesiant yng Nghymru. Gall y papur arholiad hwn ymdrin ag unrhyw agwedd ar y fanyleb a dylai canolfannau sicrhau bod ymgeiswyr bob amser yn gyfarwydd â chynnwys y fanyleb gyfan.

Ar y cyfan, ymdriniodd yr ymgeiswyr â'r berfau gorchmynnol yn effeithiol ar draws y papur. Yn gyffredinol, enillwyd marciau uwch ar gwestiynau berfau gorchmynnol AA1 a oedd yn gofyn am ddatganiadau disgrifiadol, megis ar gyfer cwestiynau 1a ac 1b. Fodd bynnag, nid oedd rhai ymgeiswyr yn gallu cyrraedd y bandiau marciau uwch gan eu bod wedi rhoi disgrifiadau yn lle'r esboniadau neu'r drafodaeth sydd eu hangen ar gyfer amcanion asesu AA2 ac AA3. Hefyd, nid oedd rhai ymgeiswyr wedi ateb y cwestiwn a osodwyd i ddarparu unrhyw wybodaeth ganmoladwy.

## Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

### Cw.1(a)

Roedd hwn yn gwestiwn disgrifio ar gyfer AA1, a chafwyd atebion da. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gyfarwydd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac roeddent yn aml yn dangos dealltwriaeth gadarn o sut y diffinnir llesiant plentyn. Cyfeiriodd rhai ymgeiswyr yn benodol at Morgan, ond roedd cyfeiriadau mwy cyffredinol at lesiant plant. Yn aml, roedd ymatebion yn cyfeirio at ddull cyfannol i gynnwys llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol y plentyn. Gwnaed cyfeiriadau at ddiogelwch plentyn, amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod, addysg, tai, perthnasoedd teuluol a chyfranogiad cymunedol. Disgrifiodd rhai ymgeiswyr Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn anghywir.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Cw.1(b)**
Cafwyd atebion da i'r cwestiwn AA1 hwn ar y cyfan. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gyfarwydd â'r model biofeddygol, ond weithiau dim ond disgrifio'r model a wnaethant, heb gysylltu'r defnydd ohono â phlant sy'n byw gydag anabledd. Nodwyd amrywiaeth o gyfyngiadau, fel natur benderfyniaethol y model gan ganolbwyntio ar ffisioleg clefydau ac afiechyd, heb gydnabod y dylanwadau amgylcheddol a chymdeithasol.

Rhoddodd rhai ymgeiswyr ddisgrifiadau ystyriol a chraff o amrywiaeth o gyfyngiadau defnyddio'r model biofeddygol ar gyfer plentyn sy'n byw gydag anabledd. Nid oedd rhai ymgeiswyr wedi ateb y cwestiwn a osodwyd gan ysgrifennu am gyfyngiadau byw gydag anabledd.

**Cw.2**
Roedd y cwestiwn AA2 hwn yn gofyn am esboniad o sut mae strategaeth 'Mwy na geiriau' yn cefnogi siaradwyr Cymraeg i fodloni eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol. Disgrifiodd rhai ymgeiswyr y manteision cyffredinol megis Y Cynnig Rhagweithiol, gan ddarparu dewis iaith ond nid oeddent bob amser yn esbonio sut roedd hyn yn helpu siaradwyr Cymraeg i fodloni eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol. Gallai siaradwyr Cymraeg dderbyn gwybodaeth bwysig yn eu mamiaith, fel y gellid nodi materion iechyd yn gynharach, a gellid darparu triniaeth yn gyflymach i ostwng cyfraddau salwch a marwolaeth. Roedd y cwestiwn hwn hefyd yn gofyn am gyfeirio at anghenion iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn cyrraedd bandiau marciau 3 a 4. Felly, er mwyn cyrraedd band marciau 4, roedd angen i'r ymgeiswyr ddarparu o leiaf dair ffordd y mae'r strategaeth hon yn cefnogi siaradwyr Cymraeg i fynd i'r afael ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol.

**CW.3**
Roedd y cwestiwn AA1 hwn yn gofyn am ddisgrifiad o nodweddion allweddol y dulliau hybu iechyd sylfaenol a thrydyddol. Rhoddodd rhai ymgeiswyr ymatebion clir a manwl gan ennill marciau llawn. Fodd bynnag, dim ond un dull a ddisgrifiwyd gan rai ymgeiswyr ac nid oeddent yn gallu cyrraedd uwchlaw band marciau 1. Disgrifiodd rhai ymgeiswyr ddulliau eilaidd o hybu iechyd yn hytrach na rhai trydyddol. Disgrifiodd ambell ymgeisydd ddarparwyr gofal iechyd sylfaenol fel meddygon teulu ac ysbytai yn hytrach na dulliau hybu iechyd sylfaenol. Yn y bôn, nod y dull sylfaenol yw lleihau'r risg i'r boblogaeth gyfan trwy ddefnyddio ymgyrchoedd yn y cyfryngau ar raddfa fawr megis Change4Life a Helpa Fi i Stopio. Mae'r dull trydyddol yn canolbwyntio ar grwpiau targed sydd eisoes wedi'u nodi â chlefyd, fel darparu clinigau diabetig sy'n darparu cyngor ac arweiniad i reoli eu cyflwr a gwella ansawdd eu bywyd yn gyffredinol. Nid oedd llawer o ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar y cwestiwn hwn neu nid oeddent wedi darparu gwybodaeth i ennill unrhyw farciau.

**CW.4**
Roedd y cwestiwn AA3 hwn yn gofyn am ystyriaeth o sut y gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod effeithio ar iechyd, llesiant a gwydnwch. Llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i gyflwyno ac ystyried amrywiaeth o effeithiau corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol sy'n effeithio ar iechyd a llesiant, megis y cyswllt rhwng problemau iechyd cronig a iechyd meddwl gwael. Fodd bynnag, os nad oedd ymgeiswyr yn ymdrin â'r effeithiau ar wydnwch, nid oeddent yn gallu cyrraedd bandiau marciau uchaf 3 a 4. Cafwyd rhai atebion rhagorol oedd yn nodi effeithiau negyddol ar wydnwch sy'n arwain at hunan-barch isel a'r anallu i ymdopi â phroblemau. Nododd rhai ymgeiswyr hefyd rai effeithiau cadarnhaol posibl ar wydnwch unigolyn, megis penderfyniad unigolyn i wella o unrhyw broblemau yn y dyfodol, a'r cymhelliant i gefnogi eraill sy'n mynd drwy sefyllfaoedd neu brofiadau tebyg.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**CW.5**
Roedd y cwestiwn AA3 hwn yn gofyn am ddadansoddi sut mae strategaeth 'Cymru Iachach: ein cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol' yn anelu at gefnogi'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Cyflwynodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr ymateb band marciau 1 o leiaf gan nodi egwyddorion y cynllun. Cyflwynodd sawl ymgeisydd bwyntiau clir a manwl, gan gyfeirio at natur hirdymor y cynllun sy'n targedu iechyd y genedl yn y dyfodol a darparu mwy o wasanaethau'n uniongyrchol i gymunedau lleol er mwyn lleihau anghydraddoldeb o ran mynediad ledled Cymru. Roedd rhai ymgeiswyr yn ymwybodol o'r egwyddorion allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau person-ganolog, sy'n gynaliadwy, yn deg, yn ataliol ac o ansawdd uchel yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**CW.6**
Atebwyd y cwestiwn disgrifio AA1 hwn yn dda iawn. Cyflwynodd ymgeiswyr amrywiaeth o risgiau posibl o gamddefnyddio alcohol megis gwenwyn alcohol, y risg uwch o glefyd yr iau a chanser ac iechyd meddwl gwael. Gwnaethant ddarparu disgrifiadau manwl ac roeddent yn aml yn nodi'r cyswllt â chyfraddau clefydedd a marwoldeb uwch ar gam cynnar drwy gydol oes Ruby. Gallai'r ymgeiswyr fod wedi disgrifio naill ai risgiau tymor byr, risgiau mwy uniongyrchol neu risgiau tymor hwy.

**Cw.7**
Roedd y cwestiwn AA3 hwn yn gofyn am drafodaeth o'r heriau posibl sy'n wynebu gweithwyr cefnogi'r teulu wrth hyrwyddo iechyd a llesiant yn y teuluoedd maen nhw'n eu cefnogi. Cyflwynodd rhai ymgeiswyr bwyntiau ystyriol ac yn aml roeddent yn ddefnyddio enghreifftiau i gefnogi eu syniadau. Roedd ymwybyddiaeth y byddai gan y teuluoedd sy'n cael eu cefnogi amrywiaeth o'u heriau eu hunain, felly mae'n bosibl y byddai'n rhaid i'r gweithiwr cefnogi'r teulu fynd i'r afael ag amharodrwydd seicolegol i dderbyn cymorth. Yn aml, pwysleisiwyd materion cyllid a staffio sy'n arwain at adnoddau annigonol i ddarparu cefnogaeth.

**Cw.8**
Roedd y cwestiwn AA2 hwn yn gofyn am esboniad o rôl byrddau iechyd lleol wrth hybu iechyd a llesiant yng Nghymru. Cyflwynodd rhai ymgeiswyr ymatebion clir a manwl, gan gynnwys amrywiaeth o enghreifftiau. Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn ymwybodol bod y byrddau iechyd yn cyllido, yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau'r GIG yn eu hardal leol. Yn aml, rhoddwyd enghreifftiau o ddarparu gwasanaethau iechyd deintyddol, optegol a gwasanaethau perthynol i iechyd. Cyfeiriodd rhai ymgeiswyr at rôl y byrddau iechyd wrth hybu cynlluniau cenedlaethol yn eu hardal leol, fel 'Helpa Fi i Stopio' ar gyfer rhoi'r gorau i ysmygu a 'September' sy'n annog profion a thriniaeth rad ac am ddim ar gyfer heintiau a drosglwyddir yn rhywiol. Nid oedd rhai ymgeiswyr yn ymwybodol o rôl y byrddau iechyd yng Nghymru.

**Cw.9**
O ganlyniad i reoli amser yn well, cwblhaodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr y cwestiwn olaf hwn. Aeth ymgeiswyr ati i ateb y cwestiwn mewn gwahanol ffyrdd. I ddechrau, cyflwynodd rhai ymgeiswyr ddisgrifiad o'r gwahanol wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ataliol a chanfod cynnar sydd ar gael i gefnogi unigolion mewn oedolaeth hwyr ac yna trafodwyd yr heriau cyffredinol sy'n wynebu'r gwaith o ddarparu'r gwasanaethau hyn yng Nghymru. Cyflwynodd ymgeiswyr eraill ddull integredig trwy ddisgrifio pob gwasanaeth a ddarperir a'r heriau cysylltiedig. Cafwyd rhai ymatebion clir a manwl iawn, yn nodi amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael megis rhaglenni brechu, sgrinio canser, addasiadau i dai, gwasanaethau cyfeillio a systemau teleofal. Nododd ymgeiswyr heriau posibl megis costau ariannol y ddarpariaeth, prinder staff, demograffeg poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru a galw cynyddol am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

Rhaid i ymgeiswyr ddarllen pob cwestiwn arholiad yn ofalus er mwyn canolbwyntio ar:

- Ateb y cwestiwn a osodwyd;
  gellid annog ymgeiswyr i uwcholeuo neu danlinellu geiriau allweddol yn y cwestiwn er mwyn osgoi gwneud gwallau o ran y cyfarwyddyd neu ddim ond ateb rhan o'r cwestiwn.
- ymdrin â'r ferf orchmynnol gywir; mae ymgeiswyr yn aml yn disgrifio (AA1), yn hytrach nag esbonio (AA2) neu drafod (AA3).
- Cydbwyso eu hamser yn ôl y marciau a ddyfernir ym mhob cwestiwn; dylai ymgeiswyr wirio'r marciau a roddwyd ar gyfer pob cwestiwn a sicrhau eu bod yn gadael digon o amser i gwblhau'r cwestiwn olaf ar y papur sy'n werth 14 marc ac sy'n cynnwys marciau am sillafu, atalnodi a gramadeg. Mae'r papur arholiad hwn yn para 2 awr ac mae 80 o farciau i'w hennill yn y papur, sy'n cyfateb i tua 1.5 munud i bob marc. Felly, er enghraifft, dylid cwblhau cwestiwn gwerth 6 marc o fewn 9 munud.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT**

**TAG - Lefel UG**

**Haf 2025**

**UNED 2: CEFNOGI IECHYD, LLESIANT A GWYDNWCH YNG NGHYMRU**

**Trosolwg o'r Uned**

Mae'n fuddiol cynnwys sylwadau'r Ganolfan ar ffurflenni datganiad i gyfiawnhau marciau a ddyfarnwyd a lle mae'r marciau wedi'u rhannu rhwng amcanion asesu. Roedd anodiadau ar waith neu gynnwys taflenni marciau, yn amlygu lle y dyfarnwyd marciau, yn cynorthwyo'r broses gymedroli i gyfiawnhau marciau a ddyfarnwyd.

Gwelwyd asesu cywir gan y rhan fwyaf o ganolfannau, ond dylid nodi, er mwyn cyrraedd y bandiau marciau uwch, rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth fanylach sy'n bodloni gofynion y fanyleb, yr amcanion asesu a'r geiriau gorchmynnol.

Bob cyfres arholiadau, bydd CBAC yn cyhoeddi manylion am ddarn penodol o ddeddfwriaeth, neu bolisi penodol, y mae'n rhaid i ddysgwyr gyfeirio ato yn eu gwaith. Gall canolfannau ddod o hyd i'r ddeddfwriaeth benodol, y polisi ar gyfer 'Tasg 2 Adran Dd' ar Wefan Ddiogel CBAC, o dan adnoddau, ‘Tasgau Asesu Di-arholiad' - cyhoeddir ar 1 Rhagfyr bob blwyddyn.   Mae gofyniad rheoleiddio ar CBAC i sicrhau bod unrhyw waith asesu di-arholiad a gyflwynir i'w asesu yn gallu cael ei ddilysu fel gwaith digymorth yr ymgeisydd. Rhaid i ymgeiswyr ac athrawon lofnodi a dyddio ffurflen datganiad i gadarnhau mai gwaith digymorth yr ymgeisydd yw’r gwaith a gyflwynir i’w asesu'n derfynol.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

**Tasg 1**

Roedd y tasgau yn eu trefn ac wedi'u cwblhau mewn fformat priodol ar gyfer adroddiad. Dewisodd ymgeiswyr rolau swyddi priodol o'r sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn deall y rolau o fewn y sectorau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant cyn penderfynu ar y ddwy rôl swydd. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr.

**Adran A – Cynnwys 2.2.3 (c)**
Ymdriniaeth dda.  Amlinelliadau da o rolau swyddi, cyfleoedd cyflogaeth a llwybrau gyrfa posibl dau ymarferwr sy'n gweithio yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.  Roedd yr ymchwil yn berthnasol ac wedi'i chymhwyso'n briodol, mae'n rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirnodi'r rhain.
Mae angen i gynnwys gysylltu â'r meini prawf asesu yn fwy penodol. Cysylltu cyfleoedd a llwybrau cyflogaeth â'r canlynol; cyfleoedd ar gyfer dyrchafiad neu ddilyniant, meysydd arbenigedd a/neu leoliadau daearyddol, er mwyn cyflawni band marciau uwch. Mae'r wybodaeth hon i'w gweld ar dudalen 36 y fanyleb.

**Adran B – Cynnwys 2.2.2 (a), (ch), 2.2.4 (a)**
Ymdriniaeth dda. Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut mae deddfwriaeth, mentrau a rheoliadau cyfredol yn cefnogi ac yn effeithio ar y broses o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant cynaliadwy o ansawdd uchel yng Nghymru.

© WJEC CBAC Ltd.2025

Mae angen i gynnwys (a) gysylltu â'r meini prawf asesu yn fwy penodol. Yn arbennig, y drafodaeth am effaith deddfwriaeth, rheoliadau a mentrau ar wasanaethau gofal cynaliadwy a gofal o ansawdd uchel, er mwyn cyflawni band marciau uwch. Gellir dod o hyd i restr o ddeddfwriaeth, rheoliadau a mentrau ar dudalennau 38-39 y fanyleb. Mae'n fuddiol cynnwys sylwadau'r Ganolfan ar waith ymgeisydd i gyfiawnhau marciau a ddyfarnwyd a lle mae'r marciau wedi'u rhannu rhwng amcanion asesu.

**Adran C (i) Cynnwys AA2, 2.2.2 (c)**
Ymdriniaeth dda. Esboniadau da o amrywiaeth o sgiliau a thechnegau sy'n cael eu defnyddio i hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae angen i gynnwys gysylltu â'r meini prawf asesu yn fwy penodol. Yn arbennig, mae angen i ymgeiswyr sicrhau bod y sgiliau a'r technegau yn cael eu cymhwyso at arferion gwaith er mwyn hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, i gyflawni band marciau uwch.
Er mwyn cyflawni'r marciau uwch, mae angen cymhwyso cynnwys at yr ymarferwr a ddewiswyd, gan roi mwy o esboniad o'r ffordd y gall yr ymarferwr gymhwyso'r sgiliau i hybu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae rhestr o sgiliau a thechnegau i'w gweld ar dudalen 31 y fanyleb.

**Adran C (ii) AA2 2.2.2(b)2.2.2(dd)**
Ymdriniaeth dda. Esboniad da o'r egwyddorion gofal a'r gwerthoedd craidd sy'n sail i'w harferion gwaith, a sut y cânt eu cymhwyso. Esboniad da o sut mae'r ymarferwr yn gweithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol i sicrhau bod canlyniadau personol yn cael eu cyflawni. Mae angen i gynnwys gysylltu â'r meini prawf asesu yn fwy penodol. Yn arbennig, mae angen cymhwyso egwyddorion gofal yn fwy at yr ymarferwr a ddewiswyd i ennill marciau uwch. Mae rhestr o egwyddorion a gwerthoedd craidd i'w gweld ar dudalen 30 y fanyleb.

Mae angen ymdrin â chynnwys yn fanwl ac mae angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn trafod y Tîm Amlddisgyblaethol a gweithio mewn partneriaeth i'r un lefel ag egwyddorion a gwerthoedd craidd cyn rhoi marciau uwch. Mae angen esbonio egwyddorion gofal mewn perthynas â'r ffordd maen nhw'n helpu i sicrhau gofal person/plentyn-ganolog o ansawdd uchel. Mae angen esbonio gwaith amlddisgyblaethol a phartneriaeth, a'r ffordd y mae'n cefnogi'r unigolyn i nodi a chyflawni canlyniadau personol. Mae sylwadau'r Ganolfan ar ffurflenni datganiad yn fuddiol i gyfiawnhau marciau a ddyfarnwyd a lle mae'r marciau wedi'u rhannu rhwng amcanion asesu.

**Tasg 2**

Cwblhawyd tasg 2 mewn fformat priodol ar gyfer cyflwyniad, blog neu ffeithlun. Lluniodd mwyafrif yr ymgeiswyr gyflwyniad. Roedd rhai wedi cynnwys nodiadau PowerPoint hefyd, dylid annog i gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl yn y cyflwyniad. Dylai ymgeiswyr ddilyn strwythur yr asesiad (Adran A, B, C ac ati) a dylid defnyddio'r adrannau hyn fel teitlau, sy'n helpu i gynhyrchu gwaith o natur gydlynol. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr.

**Adran A AA2 2.2.1(c)**
Ymdriniaeth dda. Esboniadau da o sut y gellid nodi ac asesu dau o anghenion penodol yr unigolyn er mwyn nodi a chyflawni canlyniadau personol. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn ymdrin ag Anghenion (Corfforol, Deallusol, Emosiynol, Cymdeithasol ac Ieithyddol) yr unigolyn. Mae angen mwy o ddyfnder a manylion wrth ymdrin â'r ffordd y gellid asesu'r anghenion hynny er mwyn nodi a chyflawni canlyniadau personol er mwyn cyflawni band marciau uwch. Mae angen ymdriniaeth lawn cyn dyfarnu marciau uwch.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Adran B Cynnwys AA1 AA2 2.2.1 (a), 2.2.1 (b)**
Ymdriniaeth dda. Amlinelliadau da o sut y gellir cefnogi'r unigolyn i nodi cryfderau, ac esboniad o sut y gallai hyn helpu i gyflawni canlyniadau personol a meithrin gwydnwch. Ymdriniaeth dda wrth amlinellu canlyniadau personol a chryfderau'r unigolion, ac ymdriniaeth dda o’r strategaethau y gall yr unigolyn eu defnyddio i nodi cryfderau a chanlyniadau personol. Mae angen i gynnwys ddangos mwy o ddyfnder a manylder i gyrraedd band marciau uwch. Ar gyfer AA2, bydd mwy o fanylion penodol yn amlinellu sut y gall ymarferwyr gefnogi'r unigolyn i nodi canlyniadau personol, nodi cryfderau, helpu a chyflawni canlyniadau personol a nodi a meithrin gwydnwch, yn helpu i ddyfarnu marciau bandiau uwch. Mae sylwadau'r Ganolfan ar waith ymgeisydd yn fuddiol i gyfiawnhau marciau a ddyfarnwyd a lle mae'r marciau wedi'u rhannu rhwng amcanion asesu.

**Adran C Cynnwys AA3 2.2.1 (ch)**
Ymdriniaeth dda. Astudiaethau da o'r ffyrdd y gall yr unigolyn gael ei gefnogi i fesur ei gynnydd yn erbyn canlyniadau personol. Ymdriniwyd â chynnwys yn dda ac roedd wedi'i gysylltu yn fanwl â'r unigolion. Mae angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn archwilio amrywiaeth eang o ffyrdd y gall yr unigolyn a ddewiswyd gael ei gefnogi i fesur ei gynnydd yn erbyn canlyniadau personol. Mae sylwadau'r Ganolfan ar waith ymgeisydd yn fuddiol i gyfiawnhau marciau a ddyfarnwyd a lle mae'r marciau wedi'u rhannu rhwng amcanion asesu.

**Adran Ch Cynnwys AA1 AA3 2.2.3 (a) 2.2.3 (ch)**
Ymdriniaeth dda. Amlinelliadau da o strwythur darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant berthnasol, ac ystyriaethau o sut mae'r rhain yn cyferbynnu â'r hyn sydd ar gael mewn mannau eraill yn y DU. Dylid annog ymgeiswyr i gysylltu cynnwys â'r unigolyn a ddewiswyd ganddynt. Mae angen mwy o ddyfnder a manylder ar gynnwys AA1 AA3 er mwyn cyflawni band marciau uwch. Ystyried sut mae gwasanaethau perthnasol yng Nghymru yn cyferbynnu â mannau eraill yn y DU. Mae sylwadau'r Ganolfan ar waith ymgeisydd yn fuddiol i gyfiawnhau marciau a ddyfarnwyd a lle mae'r marciau wedi'u rhannu rhwng amcanion asesu.

**Adran D AA2 2.2.3 (b)**
Ymdriniaeth dda. Esboniadau da o gynaliadwyedd darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yng Nghymru. Mae angen ymdrin â chynnwys yn llawn er mwyn cyflawni band marciau uwch. Dangosodd ymgeiswyr wybodaeth dda am nod pedwarplyg Cymru iachach.

**Adran Dd AA2 AA3 2.2.4(a) 2.2.4(b)**
Ymdriniaeth dda. Esboniadau da o sut mae dulliau sy'n seiliedig ar hawliau yn rhan annatod o'r Ddeddf Cydraddoldeb ac asesiadau o sut mae deddfwriaeth a pholisïau yn cydberthyn â'i gilydd, a'r effaith ar hawliau'r darparwr a'r unigolyn. Mae angen mwy o ddyfnder ar gynnwys AA2 2.2.4(a) ac esboniad manwl o sut mae dulliau sy'n seiliedig ar hawliau yn rhan annatod o'r Ddeddf Cydraddoldeb er mwyn cyflawni band marciau uwch. Mae angen i gynnwys AA3 2.2.4(b) gynnwys mwy o asesiad o'r ffordd y mae deddfwriaeth a pholisïau yn cydberthyn â'i gilydd a'r effaith ar hawliau'r darparwr a'r unigolyn, er mwyn rhoi band marciau uwch. Mae sylwadau'r Ganolfan ar waith ymgeisydd yn fuddiol i gyfiawnhau marciau a ddyfarnwyd a lle mae'r marciau wedi'u rhannu rhwng amcanion asesu.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

- Mae angen i waith ymgeiswyr gadw at amcanion asesu'r corff dyfarnu a rhaid sicrhau bod y gwaith yn ymdrin yn llawn â'r rhain cyn dyfarnu bandiau marciau uwch. Mae'r wybodaeth hon i'w gweld ar dudalennau 79 a 80 y fanyleb.

- Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirio atynt. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi ar ôl pob adran. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod gwaith wedi'i gyfeirnodi fel y nodir ar dudalen 77 y fanyleb.

- Anogir y defnydd o benawdau (Adran a, b, c ac ati.) i helpu ymgeiswyr i gyflwyno gwaith.

- Mae sylwadau'r Ganolfan ar waith ymgeisydd yn fuddiol i gyfiawnhau marciau a ddyfarnwyd a lle mae'r marciau wedi'u rhannu rhwng amcanion asesu.

- Nodyn atgoffa bod adnoddau i gefnogi'r broses gyflwyno ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru.

© WJEC CBAC Ltd.2025

## IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT

## TAG - Safon Uwch

## Haf 2025

## UNED 3: SAFBWYNTIAU DAMCANIAETHOL YNGHYLCH DATBLYGIAD PLANT A PHOBL IFANC

### Trosolwg o'r Uned

Roedd safon cyffredinol ymatebion ymgeiswyr i'r papur yn dda ac roedd ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth dda yn gyffredinol o'r fanyleb ac yn gallu cymhwyso'r hyn roeddent wedi'i ddysgu yn effeithiol at y cwestiynau. Prin oedd yr enghreifftiau lle gwelwyd ymgeiswyr yn ymateb heb iddynt ddeall y cwestiwn.

O'i gymharu â'r llynedd, rhoddodd ymgeiswyr lai o ymatebion lle na ddyfarnwyd unrhyw farciau. Yn gyffredinol, dangosodd ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth well o'r fanyleb ac roedden nhw'n gallu cymhwyso eu hatebion yn well at yr astudiaeth achos a safbwyntiau damcaniaethol o ddatblygiad plant ym mhob rhan o'r papur. Dylid canmol canolfannau am y gwelliannau maen nhw wedi'u gwneud o ran addysgu a dysgu ar draws pob agwedd ar y fanyleb eleni. Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr gynnig ar ateb pob un o'r cwestiynau ac enillwyd yr ystod lawn o farciau ar gyfer pob cwestiwn.

Ni wnaeth yr ymgeiswyr berfformio cystal ar gwestiwn 4c a oedd yn ymwneud â damcaniaeth o'r dull biolegol, yr oedd yn ymddangos bod gan ymgeiswyr lai o ddealltwriaeth ohoni, ac roedd rhywfaint o dystiolaeth o hyd bod ymgeiswyr yn drysu rhwng damcaniaethwyr, ac mae hwn yn bwynt i'w ddatblygu ar draws pob canolfan. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod ymgeiswyr wedi'u cyfyngu gan amser. Roedd llawer o ymatebion ardderchog yn dangos bod ymgeiswyr wedi'u paratoi'n dda ar gyfer yr arholiad. Roeddent wedi rhoi atebion llawn gwybodaeth wedi'u strwythuro'n dda, yn defnyddio terminoleg briodol iechyd a gofal cymdeithasol a gofal plant o'r fanyleb. Perfformiodd ymgeiswyr yn well eleni ar draws cwestiynau AA 2b a 5 sydd wedi'u rhannu, lle roeddent wedi dangos gwell dealltwriaeth o ofynion AA3 nag yn y blynyddoedd blaenorol.

### Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

**Cw.1(a)**
Rhoddwyd cynnig ar hwn gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr a oedd yn gallu amlinellu un ffactor o bob maes (cymdeithasegol, biolegol a seicolegol) a sut y gallai'r rhain fod wedi effeithio'n negyddol ar ddatblygiad Dafydd. Rhoddodd ymgeiswyr llai llwyddiannus fwy nag un ffactor o bob maes felly nid oeddent wedi darllen y cwestiwn yn gywir, a chan mai ailadrodd oedd hwn ni ellid ei wobrwyo, neu roeddent wedi cymysgu ffactorau. Ar y cyfan, atebwyd hwn yn dda gyda rhai ymatebion rhagorol.

**Cw.1(b)**
Atebwyd y cwestiwn hwn yn dda gyda'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth dda o ddamcaniaeth Brunel ac yn gallu esbonio sut y gallai Bethan gymhwyso'r ddamcaniaeth hon i gefnogi datblygiad Dafydd. Gallai'r ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus esbonio'r ddamcaniaeth a'i chymhwyso i gefnogi datblygiad plant. Roedd ymgeiswyr llai llwyddiannus yn cymysgu Bruner gyda damcaniaethwyr eraill fel Bandura neu yn esbonio'r ddamcaniaeth heb ei chymhwyso at yr astudiaeth achos ac at Dafydd.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Cw.1(c)**
Cafwyd llawer o ymatebion da i'r cwestiwn hwn gydag ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth dda o sut y gellir defnyddio siart ABC fel adnodd arsylwi i dracio a nodi ymddygiadau, sbardunau ac ati Dafydd. Roedd ymgeiswyr nad oeddent wedi perfformio cystal yn drysu siart ABC gyda siart wobrwyo ac yn esbonio manteision siart wobrwyo o ran ymddygiad Dafydd.

**Cw.2(a)**
Roedd rhywfaint o ymatebion rhagorol i'r cwestiwn hwn gan gyflawni band marciau 3. Gallai'r ymgeiswyr a berfformiodd yn arbennig o dda esbonio'r hyn yw therapi teuluol a dadansoddi sut y gallai helpu pob aelod o'r teulu i ddatrys y problemau yn y berthynas gan gymhwyso'r cwestiwn yn effeithiol at yr astudiaeth achos. Roedd ymgeiswyr nad oeddent wedi perfformio cystal naill ai'n disgrifio'r hyn yw therapi teuluol heb ei gymhwyso at Dafydd neu ei deulu yn yr astudiaeth achos, neu yn disgrifio sut y gallai helpu Dafydd heb gyfeirio at aelodau eraill o'r teulu.

**Cw.2(b)**
Ar gyfer AA1, llwyddodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr i ddisgrifio sut y gall nam ar y clyw effeithio ar ddatblygiad. Disgrifiodd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus sut yr effeithiwyd ar ddatblygiad ym mhob maes drwy PILES (corfforol, deallusol, ieithyddol, emosiynol a chymdeithasol). Dim ond trafod un neu ddau faes datblygiad a wnaeth yr ymgeiswyr nad oeddent wedi gwneud cystal. Ar gyfer AA3, gallai'r ymgeiswyr a berfformiodd yn dda drafod amrywiaeth o ffyrdd y gellir cefnogi datblygiad iaith ar gyfer plant ag anawsterau cyfathrebu a hynny gyda chyfeiriad at ymarferwyr a lleoliadau. Yn gyffredinol, ymatebwyd yn arbennig o dda i AA1, ond roedd tystiolaeth dda fod ymgeiswyr yn gwella'u perfformiad ar gyfer AA3 ac roedd rhai enghreifftiau o ymatebion rhagorol yma.

**Cw.3(a)**
Ymatebwyd yn arbennig o dda i'r cwestiwn hwn gyda llawer o'r ymgeiswyr yn dangos eu gwybodaeth o gerrig milltir datblygiad corfforol yn ymwneud â sgiliau echddygol manwl. Roedd ymgeiswyr llai llwyddiannus heb nodi'r ystodau oedran, yn gosod cerrig milltir yn y drefn anghywir neu'n disgrifio meysydd datblygiad eraill megis meysydd cymdeithasol ac emosiynol.

**Cw.3(b)**
Dangosodd ymgeiswyr wybodaeth dda o ddamcaniaeth Maslow, llwyddodd y rheini a oedd wedi ennill marciau uwch i esbonio sut y gall ymarferwyr fodloni anghenion plant mewn lleoliad drwy gymhwyso damcaniaeth Maslow. Llwyddodd llawer o ymgeiswyr i gyflawni'n dda yma.

**Cw.3(c)**

Dangosodd ymgeiswyr wybodaeth dda am ddamcaniaeth Freud, ond roedd rhai yn ei chael hi'n anodd ei chymhwyso at brofiadau plentyndod cynnar. Drysodd rhai ymgeiswyr rhwng damcaniaeth Freud a damcaniaeth ymlyniad Bowlby.

**Cw.4(a)**
Dangosodd ymgeiswyr wybodaeth dda am fanteision chwarae a sut mae'n cefnogi datblygiad deallusol plant. Esboniodd ymgeiswyr llai llwyddiannus sut mae chwarae yn cefnogi meysydd datblygiad eraill ar draws PILES yn hytrach na'r maes deallusol.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Cw.4(b)**
Roedd llawer o ymatebion da i'r cwestiwn hwn a dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o sut roedd chwarae mewn amgylchedd strwythuredig yn hybu datblygiad. Ystyriodd yr ymgeiswyr a berfformiodd orau holl feysydd datblygiad plant gan roi enghreifftiau perthnasol. Roedd gan ymgeiswyr nad oeddent wedi perfformio cystal wybodaeth gyfyngedig am y math hwn o chwarae.

**Cw.4(c)**
Roedd rhai ymgeiswyr yn ei chael hi'n arbennig o anodd ateb y cwestiwn hwn gan roi ateb byr neu ei adael yn wag. Mae ymgeiswyr yn ymddangos yn wannach ar y dull biolegol na safbwyntiau damcaniaethol eraill. Rhoddodd rhai ymgeiswyr atebion da mewn perthynas â cherrig milltir ac oedi mewn datblygiad, ond roedd nifer yn ei chael hi'n anodd cymhwyso'r ddamcaniaeth at ymarfer gofal plant. Ychydig iawn o ymgeiswyr a nododd ddamcaniaeth aeddfedol.

**CW.5**
Braf oedd gweld y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn rhoi atebion manwl, wedi'u strwythuro'n dda i ddwy elfen y cwestiwn hwn. Gwnaeth rhai ymgeiswyr ddefnydd rhagorol o derminoleg arbenigol, yn arbennig mewn perthynas â damcaniaeth ymlyniad. Rhoddodd llawer o'r ymgeiswyr ymatebion yr un mor gynhwysfawr ac effeithiol i elfen AA3 y cwestiwn o ran sut y gallai therapi ymddygiadol gwybyddol (CBT) helpu a chefnogi Sophie, ag y gwnaethant mewn perthynas â damcaniaeth ymlyniad ar gyfer AA1. Cymhwysodd ymgeiswyr y cwestiwn hwn yn dda at yr astudiaeth achos a Sophie. Cafwyd ymateb gwell gan ymgeiswyr i gwestiynau AA dwbl gan ddangos iddynt gael eu paratoi'n effeithiol gan Ganolfannau ar gyfer yr arholiad hwn. Roedd gan ymgeiswyr nad oeddent wedi perfformio cystal wybodaeth gyfyngedig o ddamcaniaeth ymlyniad ac roeddent yn drysu rhwng therapi ymddygiadol gwybyddol a mathau eraill o therapi.

I grynhoi, dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r astudiaeth achos, roeddent wedi gwella'u perfformiad ar y cwestiynau AA dwbl ac wedi cael eu paratoi'n dda gan ganolfannau ar gyfer yr arholiad hwn. Mae'n werth nodi bod angen i ganolfannau barhau i weithio tuag at sicrhau bod eu hymgeiswyr yn gwbl ymwybodol o'r holl ddulliau, fel y nodir yn y fanyleb.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT**

**TAG - Safon Uwch**

**Haf 2025**

**UNED 4: CEFNOGI DATBLYGIAD, IECHYD, LLESIANT A GWYDNWCH PLANT A PHOBL IFANC**

**Trosolwg o'r Uned**

Eleni, roedd llawer o'r ymgeiswyr yn llwyddiannus iawn yn eu dull o ymdrin â'r uned hon gan ennill marciau uchel ar draws y ddwy dasg. Roedd y cyflwyniad yn dda ar y cyfan a chafwyd tystiolaeth gref o ymchwil effeithiol trwy gymhwyso da at leoliad penodedig a ddewiswyd yn nhasg 1 a defnydd effeithiol o ddulliau cyfeirnodi yn nhasg 2. Dylai Tasg 1 fod mewn fformat cyflwyniad a defnyddiodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr y fformat cywir gan eu galluogi i fodloni gofynion y dasg yn dda. Fodd bynnag, eleni eto, cyflwynwyd gwaith rhai ymgeiswyr fel adroddiad ar gyfer y ddwy dasg.

Defnyddiodd ymgeiswyr amrywiaeth o leoliadau yn nhasg 1, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn briodol, er bod rhai ymgeiswyr wedi dewis ysgolion uwchradd, ac ni chaiff hyn ei argymell. Cymhwysodd rhai ymgeiswyr dasg 1 at leoliad gofal plant cyffredinol megis ysgolion cynradd neu feithrinfeydd; Argymhellir y dylai ymgeiswyr ddewis lleoliad penodol er mwyn caniatáu cymhwyso mwy effeithiol yn y dasg hon. Yn nhasg 2, roedd gwaith ymgeiswyr wedi'i gyflwyno'n dda ar y cyfan ac wedi'i gyfeirnodi'n gywir. Mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth neu'r fenter benodedig yn nhasg 2, sef Rhaglen Plant Iach Cymru, trafododd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr y fenter gywir a hynny i safon uchel iawn a oedd yn caniatáu i rywfaint o farciau uchel gael eu dyfarnu yn yr adran hon.

Roedd ymgeiswyr yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r polisïau cymdeithasol sy'n effeithio ar y sector gofal plant yng Nghymru a dylid llongyfarch canolfannau am y gwelliannau sylweddol a wnaed o ran cyfeirnodi'r gwaith, cyflwyniad y gwaith ac o ran ymdrechion i gymhwyso at y sector eto eleni.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

Aeth yr ymgeiswyr a oedd fwyaf llwyddiannus yn Nhasg 1 ati i gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth at leoliad gofal plant penodol gan eu galluogi i ystyried yn well sut mae anghenion yn cael eu diwallu gan ddefnyddio enghreifftiau penodol i lywio eu gwaith.

**Tasg 1**

**(a)** Esboniodd rhai ymgeiswyr anghenion datblygiadol plant yn fanwl yn ystod pob cyfnod datblygu allweddol, ond nid oedd angen gwneud hynny, gan mai prif ffocws tasg 1 oedd anghenion plant a phobl ifanc yn y cyfnod datblygu allweddol sy'n gysylltiedig â'r lleoliad a ddewiswyd ganddynt. Rhoddodd ymgeiswyr a oedd yn llai llwyddiannus esboniad byr iawn o'r canlyniadau posibl os na chaiff anghenion plant eu diwallu, weithiau gyda dim ond brawddeg fer yn ymwneud ag un maes datblygiad yn unig nad yw'n ddigonol ar gyfer y band marciau uchaf.

**(b)** Ymdriniodd mwyafrif yr ymgeiswyr yn dda â'r ffordd y mae trawsnewidiadau, newidiadau mewn bywyd a phrofiadau bywyd yn effeithio ar ddatblygiad a gwydnwch plant, er bod rhai ymgeiswyr wedi defnyddio trawsnewidiadau a oedd yn ymwneud ag oedolaeth nad ydynt yn berthnasol i'r dasg hon. Roedd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus yn gallu cymhwyso'r gofal a'r cymorth a roddir i blant yn ystod

© WJEC CBAC Ltd.2025

trawsnewidiadau yn effeithiol at y lleoliad o'u dewis gan ddefnyddio enghreifftiau priodol i gefnogi hyn.

**(c)** Esboniodd mwyafrif yr ymgeiswyr bwrpas asesiadau a chymhwyso'r mathau o asesiadau a ddewiswyd ganddynt i'w hesbonio at y lleoliad penodedig o'u dewis. Roedd ymgeiswyr llai llwyddiannus yn esbonio asesiadau nad oeddent yn berthnasol i'r lleoliad o'u dewis ac yn sôn am asesiadau mewn termau cyffredinol. I gyrraedd y band marciau uchaf, roedd yn angenrheidiol i ymgeiswyr gyfeirio at sut mae eu lleoliad penodedig yn defnyddio asesiadau i ddarparu cymorth amserol, priodol a pharhaus.

**(ch)** Atebwyd hwn yn dda gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr a ddisgrifiodd ystod lawn o rwystrau a allai fod yn berthnasol i blant sy'n cael mynediad i'w lleoliad dewisol.

**(d) (i)** Roedd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus yn gallu disgrifio pam gallai rhai plant sy'n cael mynediad i'r lleoliad penodedig fod ag amrywiaeth o anghenion gofal cymhleth gan gynnwys anghenion synhwyraidd ac ADY. Roedd yr ymgeiswyr llai llwyddiannus yn bennaf yn nodi amrywiaeth o gyflyrau a allai arwain at anghenion cymhleth ond ni wnaethant ddisgrifio'r hyn oedd yr anghenion hynny a'u heffaith ar y plentyn.

Gallai'r rhan fwyaf o ymgeiswyr roi rhywfaint o esboniad o sut y gallai'r lleoliad o'u dewis ddiwallu anghenion gofal cymhleth, ond gallai'r rheini a oedd fwyaf llwyddiannus esbonio sut y bodlonwyd amrywiaeth o anghenion trwy ofal plentyn-ganolog i gyflawni amrywiaeth o ganlyniadau personol. Rhoddodd ymgeiswyr llai llwyddiannus atebion cyffredinol iawn nad oeddent wedi'u cymhwyso'n dda at y lleoliad nac at y cymorth trwy ofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n blentyn-ganolog. Defnyddiodd rhai ymgeiswyr enghreifftiau penodol yma a oedd yn caniatáu iddynt gymhwyso'u hymatebion yn well at y lleoliad ac at anghenion y plant.

Dangosodd yr ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus yn nhasg 2 eu bod wedi cwblhau ymchwil drylwyr ar sut y mae polisi cymdeithasol yn effeithio ar ddarpariaeth gofal plant ac roeddent yn gallu archwilio goblygiadau'r newidiadau yn y ddarpariaeth hon yn drylwyr.

**Tasg 2**

Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu archwilio materion cysylltiedig â pholisi cymdeithasol ac yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sut mai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw'r ddeddfwriaeth gyffredinol a sut mae 'Cymru Iachach' yn llywio newid. Gallai'r ymgeiswyr mwyaf llwyddiannus archwilio polisi mewn ffordd wrthrychol a dod i farnau rhesymegol a chasgliadau dilys er mwyn bodloni gofynion Amcan Asesu AA3.

**(b)** Roedd ymgeiswyr yn fwyaf llwyddiannus pan oeddent yn gallu esbonio newidiadau mewn darpariaeth gofal plant a sut y byddai'r rhain yn berthnasol i ymarferwyr yn y sector. Cafwyd rhai ymatebion rhagorol yn yr adran hon a oedd yn haeddu'r marciau uchel a roddwyd gan ganolfannau gydag esboniadau manwl a thrylwyr o ran goblygiadau i ymarferwyr a'r sector.

**(c)** Roedd ymgeiswyr yn gallu dangos eu dealltwriaeth o bwysigrwydd diogelu, gyda llawer yn gallu dangos dealltwriaeth hyderus o pam mae diogelu yn angenrheidiol. Roedd ymatebion ar y cyfan yn fanwl ac yn drylwyr yn yr adran hon ac roedd yn galonogol gweld hynny.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**(c) (ii)** Aeth yr ymgeiswyr a oedd yn fwyaf llwyddiannus ati i ymdrin â chyfrifoldebau ac atebolrwyddau unigolion a sefydliadau ar wahân a rhoi barnau rhesymegol ar sut mae'r cyfrifoldebau a'r atebolrwyddau yn effeithio ar ymarfer yn y sector. Rhoddodd ymgeiswyr llai llwyddiannus ymatebion disgrifiadol yn bennaf ac felly roeddent yn fwy llwyddiannus yn elfen AA1 yr adran hon nag yn yr elfen AA3.

**(c) (iii)** Roedd yn galonogol gweld yn nhasg 2 (c)(iii) fod mwyafrif yr ymgeiswyr yn trafod menter gywir Rhaglen Plant Iach Cymru ac yn gallu gwneud barnau ynghylch ei rôl a'i nodau.

**(ch)** Ymdriniwyd â hwn yn dda gan ymgeiswyr, a'r rheini a oedd â thystiolaeth o ymchwil drylwyr oedd y mwyaf llwyddiannus yma gan ennill marciau uchel.

Ar y cyfan, dangosodd pob adran yn y ddwy dasg welliannau o ran y dull o ymdrin â'r tasgau wedi'u gosod o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT**

**TAG - Safon Uwch**

**Haf 2025**

**UNED 5: SAFBWYNTIAU DAMCANIAETHOL YNGHYLCH YMDDYGIAD OEDOLION**

## Trosolwg o'r Uned

Roedd yn braf gweld bod mwyafrif yr ymgeiswyr wedi rhoi cynnig ar bob cwestiwn, gyda'r rhan fwyaf yn ennill marciau am eu hymatebion oherwydd eu bod yn gallu dangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddamcaniaeth seicolegol. Roedd yr ymgeiswyr wedi gwneud defnydd effeithiol o'r astudiaeth achos a ryddhawyd ymlaen llaw i baratoi ar gyfer eu hymatebion yn Adran A o'r papur. Nid oedd yn ymddangos bod rheoli amser yn effeithio ar berfformiad mwyafrif yr ymgeiswyr; byddai hyn yn awgrymu bod yr ymgeiswyr wedi gwneud defnydd o'r adnodd 'Arweiniad i'r Arholiad' er mwyn paratoi.

Yn gyffredinol, roedd ymatebion ymgeiswyr yn dangos sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig priodol ar gyfer TAG. Defnyddiwyd terminoleg pwnc-benodol yn dda gan y rhan fwyaf ar draws y papur. Prin iawn y gwelwyd llawysgrifen annarllenadwy.

Dylai ymgeiswyr gofio canolbwyntio ar eiriau gorchmynnol y cwestiynau o ddechrau eu hymatebion. Os na fyddant wedi ymdrin â'r gair gorchmynnol yn ddigon trylwyr, dim ond y marciau isaf y gellir eu rhoi. Yn gyffredinol, roedd ymatebion yn mynd i'r afael â gofynion y cwestiynau, ond nid oedd rhai'n cynnig yr ymdriniaeth angenrheidiol i gyrraedd y bandiau marciau uwch.

Roedd rhai ymatebion yn awgrymu bod ymgeiswyr yn ei chael hi'n anodd cysylltu'r dulliau gweithredu yn seiliedig ar ddamcaniaethau seicolegol ag esboniad o sut y gallai'r dull gweithredu gefnogi unigolion yn arbennig mewn perthynas â Cw.2a a Cw3c.

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn paratoi, nid yn unig drwy gael dealltwriaeth hyderus o'r damcaniaethau seicolegol ond hefyd o sut y gall y gwahanoesboniadau gefnogi unigolion. Gellir hwyluso hyn drwy fanteisio i'r eithaf ar yr adnoddau a ddarperir i gefnogi uned 5.

## Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

**Adran A** – Mae'r adran hon yn ymwneud â'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr astudiaeth achos a ryddhawyd ymlaen llaw.

**Cw.1** Yn gyffredinol, cafwyd perfformiad da mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Amrywioldeb yn ansawdd yr ymatebion yn hytrach na diffyg gwybodaeth oedd y rheswm dros golli marciau.

**(a)** Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o ffactorau a allai fod wedi cael effaith ar ymddygiad Tom gan lwyddo i ennill y marciau llawn.

**(b)** Dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth sicr yn gyffredinol o Gynlluniau Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol, gyda dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o nodweddion allweddol.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**(c)** Dangosodd yr ymatebion fod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu darparu esboniad da a oedd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut y gallai cael Cynllun Cefnogi Ymddygiad Cadarnhaol fod o fudd i Tom.

**Cw.2 (a)** Dangosodd ymatebion fod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu darparu gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut y gallai therapi cyffuriau gefnogi unigolion sy'n dioddef o iselder. Roedd ymgeiswyr a oedd yn cyrraedd y bandiau marciau uwch yn aml yn ystyried yr agweddau negyddol (e.e. gall greu dibyniaeth a chaethiwed, gall gael sgil effeithiau annifyr) ar y cyd â'r agweddau cadarnhaol.

**(b)** Darparodd y rhan fwyaf o'r ymatebion dystiolaeth o wybodaeth a dealltwriaeth sicr ar y cyfan o nodweddion allweddol ailstrwythuro gwybyddol Beck a thrafodaeth dda gyda dehongliad dilys ar y cyfan o sut y gallai'r dull gweithredu hwn gefnogi Anwen.

**Adran B**

**Cw.3 (a)** Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu darparu amlinelliadau da o ddwy ffactor a allai fod wedi achosi newid yn ymddygiad Ezra ac roeddent yn gallu ennill marciau llawn.

**(b)** Dangosodd ymatebion fod gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o wydnwch a'u bod yn gallu darparu esboniad gyda dealltwriaeth sicr ar y cyfan o sut y gallai symud i gartref preswyl helpu i feithrin gwydnwch Ezra.

**(c)** Cafwyd ymateb cymysg gan ymgeiswyr. Dangosodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o'r dull 'bod yn bwysig'. Roedd yr ymgeiswyr hynny a oedd wedi cyrraedd y bandiau marciau uwch yn dangos dealltwriaeth hyderus o sut y gall dull 'bod yn bwysig' gefnogi unigolion sy'n byw gyda dementia ac yn defnyddio Ezra i enghreifftio eu hymatebion.

**Cw.4 (a)** Roedd y rhan fwyaf o ymgeiswyr yn gallu i darparu amlinelliadau da o ddwy ffactor a allai fod wedi dylanwadu ar ymddygiad Sara ac roeddent yn gallu ennill marciau llawn.

**(b)** Dangosodd ymatebion fod y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu darparu esboniad da gan ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o Ddamcaniaeth Ymddygiadol a sut y gallai Damcaniaeth Ymddygiadol gyfrif am ymddygiad diweddar Sara. Roedd llawer o ymgeiswyr yn cysylltu eu hatebion ag amrywiaeth o ddamcaniaethwyr sydd wedi cyfrannu at Ddamcaniaeth Ymddygiadol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol yn eu hymatebion.

**(c)** Gallai'r ymgeiswyr roi disgrifiadau da o sut y gall cael mynediad at grŵp hunangymorth gefnogi unigolyn sy'n byw gydag anhwylder bwyta. Disgrifiodd yr ymgeiswyr hynny a oedd yn cyrraedd y bandiau marciau uwch nodweddion y grŵp hunangymorth ar-lein (e.e mynediad hyblyg, darparu anhysbysrwydd a phreifatrwydd, mynediad ar unwaith pan fo angen).

© WJEC CBAC Ltd.2025

**(d)** Cyflwynodd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr wybodaeth gadarn ar y cyfan o ddamcaniaeth Hierarchaeth Anghenion Maslow. Ond dim ond trafodaeth sylfaenol ynghylch sut y gallai peidio â chael digon o fwyd effeithio ar hunansylweddoliad Sara a gafwyd gan rai ymatebion . Roedd yr ymatebion hynny a oedd yn cyrraedd y bandiau marciau uwch yn fanylach, e.e. Byddai Sara'n mynd yn sâl ac o bosibl yn methu gweithio ac ennill arian i ddiwallu ei hanghenion sylfaenol, ni fyddai Sara'n gallu canolbwyntio ar gariad na derbyniad nes bod yr angen am fwyd wedi'i ateb.

**Cw.5** Roedd y cwestiwn hwn yn cyfuno dau amcan asesu (AA1 ac AA3) ac yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ddisgrifio ac asesu. Roedd sillafu, atalnodi, gramadeg a'r defnydd o derminoleg pwnc-benodol yn cael eu hasesu yn yr ymatebion hefyd.

**AA1**
Roedd y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn gallu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol o ddull Cefnogaeth Weithredol ac yn gallu disgrifio rhai o'r nodweddion allweddol, ond roedd hynny'n aml yn gysylltiedig â dull person-ganolog yn unig heb gyfeirio at nodwedd allweddol 'gweithio gydag' unigolyn yn hytrach na 'gofalu am' unigolyn. Darparodd yr ymgeiswyr a gafodd farciau uwch ddisgrifiadau manylach o ddull Cefnogaeth Weithredol ac roedd yn galonogol gweld rhai disgrifiadau ardderchog gyda rhai ymgeiswyr yn cyrraedd Band Marciau 4.

**AA3**
Roedd y rhan fwyaf o ymatebion wedi'u mynegi'n ddigonol ac yn dangos dehongliadau dilys ar y cyfan o sut mae dull Cefnogaeth Weithredol yn cefnogi egwyddorion gofal person-ganolog. Dangosodd yr ymgeiswyr hynny a oedd yn cyrraedd band marciau 4 ymdriniaeth hyderus a manwl o ofal person-ganolog a sut mae dull Cefnogaeth Weithredol yn eu cefnogi, gan ddefnyddio enghreifftiau yn aml i egluro eu hymatebion.

Defnyddiodd y rhan fwyaf o ymgeiswyr sillafu, atalnodi a gramadeg gymharol gywir. Roedd yr ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda gan amlaf. Defnyddiwyd terminoleg pwnc-benodol yn gywir gan fwyafrif helaeth yr ymgeiswyr.

**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

- Dylai ymgeiswyr gofio canolbwyntio ar eiriau gorchmynnol y cwestiynau o ddechrau eu hymatebion. Os na fyddant wedi ymdrin â'r gair gorchmynnol yn ddigon trylwyr, dim ond y marciau isaf y gellir eu rhoi.

- Argymhellir bod yr ymgeiswyr yn defnyddio'r adnodd 'Arweiniad i'r Arholiad' i'w paratoi ar gyfer gofynion yr arholiad hwn.

- Mae angen gwybodaeth a dealltwriaeth fwy trylwyr o'r dulliau yn seiliedig ar y damcaniaethau allweddol ac esboniad o sut y gallai'r dulliau hyn gefnogi grwpiau penodol o unigolion er mwyn i ymgeiswyr allu cyrraedd y bandiau marciau uwch.

- Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn paratoi nid yn unig drwy gael gafael hyderus ar y dulliau a ddefnyddir i gefnogi unigolion ond hefyd ar sut mae egwyddorion gofal person-ganolog yn sail i'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir i gefnogi grwpiau penodol o unigolion. Gellir hwyluso hyn trwy wneud defnydd o'r holl ddeunyddiau adnoddau a ddarperir i gefnogi uned 5

© WJEC CBAC Ltd.2025

**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT**

**TAG - Safon Uwch**

**Haf 2025**

**UNED 6: CEFNOGI OEDOLION I GYNNAL IECHYD, LLESIANT A GWYDNWCH**

**Trosolwg o'r Uned**

Cafodd yr holl waith ei uwchlwytho erbyn y dyddiad cau, sef 15 Mai. Cafwyd rhai gwallau clerigol mathemategol bach wrth adio marciau. Dylai canolfannau gadarnhau bod y marciau a roddwyd yn dod i gyfanswm cywir ar y taflenni marcio cyn eu cyflwyno ar y porth. Llofnodwyd yr holl waith yn gywir gan ymgeiswyr ac aseswyr, a gwelwyd tystiolaeth o arfer da wrth i rai canolfannau gymedroli gwaith ymgeiswyr yn fewnol.

**Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol**

Mae'n hanfodol dewis lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol priodol ar gyfer y dasg hon er mwyn i ymgeiswyr allu dangos gwybodaeth a dealltwriaeth ym mhob rhan o'r dasg. Gall dewis gwael neu amherthnasol atal ymgeiswyr rhag gallu cyrraedd y bandiau marciau uwch oherwydd diffyg enghreifftiau perthnasol y gellir eu cymhwyso at bob adran o'r dasg. Ysgrifennodd llawer o'r ymgeiswyr adran gychwynnol ar eu lleoliad cyn dechrau. Dewisodd rhai ymgeiswyr ysgrifennu eu hastudiaeth achos eu hunain i roi cyd-destun i'r aseiniad hwn, dylid nodi nad yw hyn yn ofyniad uniongyrchol ond bod cymedrolwyr wedi ystyried hyn wrth edrych ar y samplau. Cynghorir canolfannau bod gan yr Asesiad Di-arholiad hwn gyfnod asesu byr ac y dylent ystyried a yw gosod astudiaeth achos yn effeithio ar ymgeiswyr neu'n eu cynorthwyo.

**Tasg 1**

Cwblhawyd hon mewn fformat priodol ar gyfer cyflwyniad, blog neu ffeithlun. Lluniodd mwyafrif yr ymgeiswyr gyflwyniad. Roedd rhai yn cynnwys nodiadau PowerPoint hefyd, dylid annog ymgeiswyr i gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl yn y cyflwyniad.
Dylai ymgeiswyr ddilyn strwythur yr asesiad (Adran A, B, C ac ati) a dylid defnyddio'r adrannau hyn fel teitlau, sy'n helpu i gynhyrchu gwaith o natur gydlynol. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr.

**(a)**
Mae hyn yn cyflwyno'r cefndir ar gyfer y dasg hon yn effeithiol ac yn annog ymgeiswyr i ddangos perthnasedd y lleoliad a ddewiswyd ganddynt. Deallwyd gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a'i le o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn dda gan y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr. Ysgrifennodd rhai ymgeiswyr yn gyffredinol am drosglwyddiadau, newidiadau mewn bywyd a phrofiadau bywyd ac ni wnaethant wahaniaethu'n glir rhyngddynt, er bod y rhan fwyaf ohonynt wedi gallu nodi ystod berthnasol.

**(b) (i a ii)**
Roedd canolfannau wedi asesu'r adran hon yn gywir gydag amrywiaeth o fathau o drawsnewidiadau, profiadau bywyd a newidiadau bywyd yn cael eu trafod. Roedd y canolfannau hynny a ddangosodd leoliadau priodol yn trafod amrywiaeth o'r rhain yn effeithiol. Esboniwyd effaith y newidiadau hyn yn effeithiol hefyd gyda'r rhan fwyaf o'r ymgeiswyr yn cyrraedd marciau'r bandiau uwch.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**(c)**
Yn gyffredinol, roedd ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth dda o asesu ac roedd yn galonogol gweld cyfeiriadau at y pum elfen asesu yng ngwaith mwy o'r ymgeiswyr eleni. Byddai cymhwyso hynny at y lleoliad, gan gynnwys ystyried cynlluniau gofal ac ymyriadau amserol, yn galluogi rhai ymgeiswyr i gyrraedd marciau yn y band uwch.

**(ch)**
Nododd ymgeiswyr rwystrau yn dda ac ysgrifennodd sawl un mewn modd cynhwysfawr am amrywiaeth o'r rhain mewn perthynas â'r unigolyn yn y lleoliad a ddewiswyd ganddynt, gan gynnwys ffyrdd realistig o oresgyn heriau.

**(d) (i a ii)**
Cafodd hon ei rhannu'n ddwy ran gan lawer o'r ymgeiswyr, sy'n arfer da. Mae angen mwy o ffocws ar yr adran hon o'r dasg, gan gynnwys mwy o ddyfnder wrth ystyried sut y gallai'r lleoliad ymateb i anghenion gofal cymhleth er mwyn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i oedolion i gyflawni canlyniadau personol. Dylid annog ymgeiswyr i gyfeirio at adran (a) i'w hatgoffa o nodweddion gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer yr unigolyn yn y lleoliad a ddewiswyd ganddynt. Nodwyd nad yw llawer o'r ymgeiswyr yn nodi'r hyn yw gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a sut y gallai hyn helpu i gefnogi oedolion.

**Tasg 2**

Roedd y tasgau yn eu trefn ac wedi'u cwblhau mewn fformat priodol ar gyfer adroddiad. Dylai'r ymgeiswyr ddilyn strwythur yr asesiad (Adran a, b, c ac ati) a dylid defnyddio'r adrannau hyn fel teitlau, byddai hyn yn helpu i gynhyrchu gwaith o natur gydlynol. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi ar gyfer y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr.

**(a)**
Ysgrifennodd llawer o'r ymgeiswyr ddisgrifiadau trylwyr o'r materion polisi cymdeithasol sy'n effeithio ar y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru ac er ei bod yn galonogol nodi bod mwy o ymgeiswyr wedi ystyried Cymru Iachach eleni, mae angen gwell ymwybyddiaeth o hyd er mwyn i rai ymgeiswyr gyrraedd y marciau yn y band uwch. Roedd rhywfaint o'r gwaith yn dueddol o fod yn ddisgrifiadol ac nid oedd unrhyw gynnwys dadansoddol. Ychydig iawn o gyfeiriadau a wnaed gan ymgeiswyr o ran y nod pedwarplyg a sut mae'n gweithio i wella canlyniadau gofal iechyd gan ddechrau gyda dulliau cymunedol.

**(b)**
Yn yr un modd â'r llynedd, dylai ymgeiswyr nodi y dylent osgoi dyblygu gwaith sydd ei angen ar gyfer adran (ch). Dylai'r adran hon gynnig esboniad clir o'r newidiadau mewn darpariaeth a'r effaith ar rolau ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Byddai'n ddefnyddiol ystyried esboniad o rolau newydd a datblygol yn y sector.

**(c) (i, ii, iii)**
Yn gyffredinol, dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd diogelu ar gyfer adran (c) (i) ac roeddent yn gallu dangos gwybodaeth am yr unigolion a'r sefydliadau hynny â chyfrifoldebau o ran diogelu oedolion sy'n wynebu risg. Dylai canolfannau dynnu sylw ymgeiswyr at yr amcan asesu dadansoddi er mwyn dadansoddi sut mae'r cyfrifoldebau a'r atebolrwyddau dros ddiogelu yn cael effaith ar yr ymarferwyr hynny sy'n darparu gofal i oedolion sy'n wynebu risg. Nid oedd rhai ymgeiswyr wedi cynnwys unrhyw ddeunydd gwerthusol yn yr adran hon o'r dasg a rhoddwyd marciau uchel iddynt unwaith yn rhagor. Cyfeiriodd bron pob ymgeisydd at y ddeddfwriaeth a enwir a gwelwyd amrywiaeth o ffyrdd y cysylltir gofal iechyd darbodus â diogelu. Byddai tystiolaeth o farnau rhesymegol yn gwella gwaith ymgeiswyr ar y bandiau marciau uwch.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**(ch)**
Mae'r adran hon yn gofyn am asesu newidiadau mewn cymdeithas a sut maen nhw'n effeithio ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Nododd llawer o'r ymgeiswyr ffactorau perthnasol fel tlodi bwyd, diffyg adnoddau a phoblogaeth sy'n heneiddio ond ni wnaethant asesu'r effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd rhai ymatebion yn ddisgrifiadol ar y cyfan, er bod rhai ymgeiswyr ar ben uchaf y bandiau marciau wedi ymchwilio i ffeithiau ac ystadegau gan wneud ymdrech dda i gysylltu'r wybodaeth â'r effaith ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Lle roedd ymgeiswyr wedi ennill marciau bandiau uwch roeddent wedi gwneud cyfeiriadau cyson at ddarllen ehangach ar gyfer yr adran hon. Y marciau wedi'u cymedroli oedd yn tueddu i amrywio fwyaf yn yr adran hon a hynny oherwydd bod canolfannau'n dyfarnu ychydig yn rhy hael.

**Argymhellion**

- Dylid annog canolfannau, fel arfer da, i anodi gwaith ymgeiswyr lle mae amcanion asesu wedi'u cyflawni.
- Dylid annog canolfannau, fel arfer da, i gymedroli sampl o waith yn fewnol a nodi'r rhain ar daflenni datganiad ymgeisydd.
- Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod yr adroddiad wedi'i gwblhau yn eu geiriau eu hunain, a lle mae ymgeiswyr wedi defnyddio ymchwil ac adnoddau, mae'n rhaid cyfeirio atynt. Roedd tystiolaeth o ymchwil a gynhaliwyd cyn dechrau'r asesiad di-arholiad wedi'i chofnodi'n dda ac wedi'i chyfeirnodi ar ôl pob adran.
- Rhaid i ymgeiswyr sicrhau bod gwaith wedi'i gyfeirnodi fel y nodir ar dudalen 77 y fanyleb.
- Anogir y defnydd o benawdau (Adran a, b, c ac ati.) i helpu ymgeiswyr i gyflwyno gwaith.

© WJEC CBAC Ltd.2025

## Eich cefnogi chi

### Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 02922 404 264
E-bost: HSCandCC@wjec.co.uk
Tudalen pwnc y cymhwyster: Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Cysylltu â ni | Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

### Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

### Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda thros 70 mlynedd o brofiad, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Ltd.2025

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.2025